# Pecyn y cwis feistr

bbc.co.uk/cymru/raw

# Rownd 1 - Chwaraeon

1 Pa chwaraewr Rygbi'r Gynghrair o Tiger Bay sgoriodd 478 cais dros Wigan rhwng 1953 a 1970? ... Billy Boston

2 Pa dref fechan ym Mhowys sy'n enwog am ei chystadleuaeth snorclo trwy gors? ... Llanwrtyd

3 Pa chwaraewr badminton o Gymru gafodd fedal aur yng Ngemau'r Gymanwlad yn 1998? ... Kelly Morgan

4 Pa Gymro enillodd Bencampwriaeth Genedlaethol Dartiau Prydain yn 1989? ... Sparky Jones

5 Pa flwyddyn y bu Gemau'r Gymanwlad yng Nghaerdydd? ... 1958

6 Pa chwaraewr pêl-droed sy'n chwarae dros Loegr a gafodd ei fagu yng Ngogledd Ddwyrain Cymru? ... Michael Owen

7 Pwy oedd y gôl-geidwad a gafodd ei bleidleisio'n chwaraewr y flwyddyn yn 1985? ... Neville Southall

8 Beth yw enw llawn JPR? ... John Peter Rhys Williams

9 Pwy oedd capten Morgannwg pan enillon nhw'r Gynghrair Undydd yn 2004? ... Robert Croft

10 Pa sylwebydd pêl-droed sydd hefyd yn farnwr? ... Nic Parry

# Rownd 2 - Adloniant

1 Pa fand gyfansoddodd Hotel California? ... Eagles

2 Merle Kilgore a pha gantores ysgrifennodd Ring of Fire, cân y mae Johnny Cash yn enwog am ei chanu? ... June Carter

3 Ym mha ddinas bu Elvis farw? ... Memphis

4 Pa ffilm Gymraeg gafodd ei henwebu am Oscar ym 1992? ... Hedd Wyn

5 Beth yw enw'r dyn tal sy'n cyflwyno Top Gear? ... Jeremy Clarkson

6 Beth yw enw mwy cyfarwydd Enrique Martín Morales? ... Ricky Martin

7 Beth oedd enw cyfaill Emu? ... Rod Hull

8 Beth oedd lliwiau Bagpuss? ... Pinc a gwyn

9 Beth yw enw'r cochyn bach yn Sam Tân? ... Norman

10 Pa offeryn oedd canwr y band nu-metal Korn yn chwarae ar ambell i gân? ... Bacbip (bagpipe)

# Rownd 3 - Cyffredinol

1 Pa gyfandir yw'r mwyaf, Affrica neu Ogledd America? ... Affrica

2 Beth yw'r ail fynydd uchaf yn y byd? ... K2

3 I ble roedd Beagle 2 yn teithio? ... Planed Mawrth

4 Pa ffrwyth sy'n cael ei adnabod fel 'ananas' mewn Ffrangeg? ... Pîn-afal

5 Pau ddau liw sydd ar arfbais Tywysogion Gwynedd? ... Melyn a choch

6 Pa gwmni Awstralaidd sy'n gyfrifol am adeiladu Wembley? ... Multiplex

7 Ym mha ddinas yng Nghymru y cafwyd hyd i long o'r Canol Oesoedd wrth adeiladu canolfan gelfyddydau newydd? ... Casnewydd

8 Beth yw'r enw mewn mathemateg ar rif sydd dim ond yn gallu cael ei rannu gyda'i hun a'r rhif 1, er enghraifft 7, 11, 13 ac 17? ... Rhif cysefin

9 Pa ffordd mae'r ddraig goch ar faner Cymru'n wynebu? ... I'r chwith

10 Beth yw'r enw ar y mamal blewog chwareus sy'n byw yn rhai o afonydd Cymru? ... Dyfrgi

# Rownd 4 - Anagramau

Rhowch y llythrennau isod yn y drefn gywir

1 Natje Jonckas ... Janet Jackson

2 Alaemp Dsraone ... Pamela Anderson

3 Soirb Crebke ... Boris Becker

4 Amnnoda ... Madonna

5 Dvaina Calmcl ... Davina McCall

6 Ughh Trang ... Hugh Grant

7 Ernifnej Zlepo ... Jennifer Lopez

8 Angermie Reger ... Germaine Greer

9 Diede Ardziz ... Eddie Izzard

10 Lupa Tremon ... Paul Merton